Amgylchedd Hanesyddol Cymru: Tuag at Ddatganiad Strategol

CRYNODEB GWEITHREDOL

Lluniwyd y ddogfen hon gan y Grŵp Amgylchedd Hanesyddol, un o fforymau cynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

©CBHC

©DAT

Tuag at Ddatganiad Strategol ar yr Amgylchedd Hanesyddol

Mae'r ddogfen hon yn rhoi cyngor i'r Gweinidog dros Dreftadaeth gan ei Grŵp Amgylchedd Hanesyddol, fforwm cynghori yn cynnwys sefydliadau cenedlaethol a lleol a sefydlwyd ar gyfer y Gweinidog gan Cadw. Nod y ddogfen hon yw:

- egluro'r problemau a'r cyfleoedd sy'n wynebu'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru;
- nodi'r blaenoriaethau o ran y camau posibl i'w cymryd gan sefydliadau neu bartneriaethau;
- rhoi trosolwg strategol i Weinidogion, byrddau llywodraethwyr, awdurdodau lleol ac arweinwyr eraill.

Lluniwyd y ddogfen gan y Grŵp Amgylchedd Hanesyddol gyda chyngor gan ei aelod gyrff ac fe'i diwygiwyd yn dilyn ymgynghoriad gyda'r sector yn y gynhadledd i randdeiliaid amgylchedd hanesyddol ac yn dilyn y gynhadledd honno. Mae'r ddogfen yn rhoi trosolwg o amrywiaeth, ehangder a chyfoeth asedau amgylchedd hanesyddol Cymru a'r rhai sy'n cyfrannu ato ac yn ei gefnogi. Mae hefyd yn ceisio dangos cyfraniad y sector i flaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cynulliad Cymru, awdurdodau lleol a sefydliadau o ran:

- hunaniaeth gymunedol a lles;
- dysgu gydol oes;
- amgylchedd cynaliadwy;
- bywiogrwydd economaidd;
- iechyd a lles personol;
- balchder cenedlaethol a natur unigryw leol.

I grynhoi, mae'r Grŵp Amgylchedd Hanesyddol yn dod i'r casgliad bod amgylchedd hanesyddol Cymru yn amrywiol, yn nodedig ac o safon eithriadol. Gallwn ddangos sut mae'n cyfrannu at gyfoethogi bywydau pobl, hunaniaeth y genedl a'n llwyddiant economaidd mewn sawl ffordd. Fodd bynnag, gallai gwybodaeth am lunio polisïau sy'n seiliedig ar dystiolaeth a gwerthuso cynnydd ac effeithiau fod yn gryfach. Mae pob partner yn y sector yn rhannu'r weledigaeth o amgylchedd hanesyddol sy'n gyfoethog, yn amrywiol, y gofelir amdani ac sy'n hygyrch i bawb ac sy'n cefnogi ein lles economaidd, cymdeithasol ac emosiynol. Cyflawnir hyn drwy weithgarwch ymchwilio, diogelu, rheoli, dehongli a hyrwyddo. Mae'r materion presennol sy'n effeithio ar gyflawni'r weledigaeth yn perthyn i gyfres o themâu, a fynegir yn y brif ddogfen ac a nodir yn fyr isod. Ar gyfer pob un o'r themâu, dilynir trafodaeth ar gryfderau a phwysau ac awgrymir nifer o gamau gweithredu i'w hystyried gan bartneriaid yn y sector.

Croesawn eich sylwadau ar y datganiad hwn. Cyhoeddir y ddogfen lawn ar ein gwefan. I wneud cais am gopi caled cysylltwch â ni.

Cadw
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Plas Carew
Uned 5/7 Cefn Coed
Parc Nantgarw
Caerdydd CF15 7QQ
Ffôn: 01443 33 6000
Ffacs: 01443 33 6001
E-bost: Cadw@Wales.gsi.gov.uk
Gwefan: www.cadw.cymru.gov.uk

©AHF

Pobl a chymunedau

Mewn arolwg o breswylwyr Cymru yn 2007 roedd yn galonogol dysgu bod 91% o'r farn bod gofalu am ein hamgylchedd hanesyddol yn bwysig. Mae llawer o bobl yn ymrwymedig i gefnogi'r amgylchedd hanesyddol yn bersonol, drwy gamau cyflogedig a gwirfoddol a thrwy gymryd rhan mewn gweithgareddau ac ymweld â safleoedd treftadaeth. Fodd bynnag, mae lleiafrif mawr yn wynebu rhwystrau i fynediad — rhwystrau ffisegol, logistaidd, deallusol neu o ran agwedd. Daw'r Grŵp Amgylchedd Hanesyddol i'r casgliad bod angen dull Cymru gyfan tuag at ddehongli, bod yn rhaid i ni ystyried barn wahanol pobl o ran pwysigrwydd a pherthnasedd, ac y dylem ddefnyddio pob dull sydd gennym yn cynnwys dulliau electronig, i ddileu rhwystrau o ran mynediad a gwerthfawrogiad.

Y sail dystiolaeth a dysgu

Caiff yr amgylchedd hanesyddol ei werthfawrogi fwyfwy fel adnodd dysgu gwych — ar gyfer addysg ffurfiol ac anffurfiol, ar gyfer cyflawniad galwedigaethol a phersonol. Mae ein gwybodaeth am yr amgylchedd hanesyddol yn cael ei datblygu'n barhaus a'i hadnewyddu drwy ymchwil a darganfyddiadau. Mae lle sylweddol i arloesi o ran darparu gwybodaeth, adnoddau dysgu a dehongli drwy ddefnyddio TGCh. Fodd bynnag, mae sgiliau crefft ac arbenigedd cadwraeth yn y proffesiynau yn fwyfwy prin ac mae'n rhaid i ni hyrwyddo'r sgiliau hyn ac annog newydd-ddyfodiaid.

Amgylchedd cynaliadwy

Mae'r amgylchedd hanesyddol yn un o brif gydrannau amgylchedd Cymru a'i rhagolygon ar gyfer datblygu cynaliadwy. Ceir gweithdrefn gynllunio gadarn ond, er gwaethaf hyn, mae tua 10% o adeiladau rhestredig 'mewn perygl' ac mae materion sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd yn achos pryder sylweddol. Mae'r Grŵp Amgylchedd Hanesyddol yn annog dull cydgysylltiedig tuag at fonitro a lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd a cheisio atebion i safleoedd mewn perygl. Mae'r buddsoddiad presennol yn sylweddol ond mae'r angen am gymorth ariannol a chyllidol yn parhau.

Cymdeithas ffyniannus

Mae'r amgylchedd hanesyddol yn ased economaidd sylfaenol, sy'n helpu i greu a chynnal gwlad ddeniadol i fyw a gweithio ynddi, ac i ymweld â hi. Mae'r sector yn cyflogi tua 23,000 o bobl yn uniongyrchol, gyda llawer ohonynt mewn rolau medrus ac arbenigol. Gall ffyniant a dirywiad fygwth yr amgylchedd hanesyddol ac mae'r Grŵp Amgylchedd Hanesyddol yn ymrwymedig i wneud achos seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer cyfraniad economaidd yr amgylchedd hanesyddol a gwerth treftadaeth o ran adfywio.

Trefnu a chyflawni

Mae'r sector amgylchedd hanesyddol yng Nghymru yn perfformio'n dda oherwydd ceir cydweithredu da rhwng cyfranwyr o'r sector

Cydnabyddiaethau

Lluniwyd gan Peter Wakelin (CBHC), Gwilym Highes (Cadw), Ken Murphy (Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed), Emma Plunkett-Dillon (Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol), Neil Sumner (gynt o CBS Pen-y-bont ar Ogwr), Simon Robertshaw (CS Mynwy).
Golygwyd gan Peter Wakelin.
Cynhyrchwyd gan Cadw.

cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector. Mae'r trydydd sector (gwirfoddol) yn fywiog, ond mae canfyddiad bod diffyg hyrwyddwyr amgylchedd hanesyddol lleol a'r seilwaith i'w cefnogi. Mae'r weithdrefn dynodi treftadaeth yn effeithiol, ond mae angen cynnal ansawdd dynodiadau a chanllawiau wrth i ddiwygiadau diogelu treftadaeth gael eu gweithredu yn y blynyddoedd i ddod.

Cenedl hyderus

Ni fyddai llawer yn dadlau'r ffaith bod gan yr amgylchedd hanesyddol le allweddol yn ymdeimlad o hunaniaeth a balchder y genedl. Mae gennym safleoedd o statws rhyngwladol a Threftadaeth y Byd. Er gwaethaf hyn oll, mae natur unigryw leol o dan fygythiad globaleiddio ac mae'r Grŵp Amgylchedd Hanesyddol yn argymell ein bod yn gweithio gyda'n gilydd i ddatblygu dealltwriaeth gyhoeddus o'r themâu sy'n bwysig yn rhyngwladol o ran treftadaeth Cymru a'r angen i ddiogelu natur unigryw leol drwy gynllunio, dylunio a chynnal a chadw'r adeiledd hanesyddol yn well.

Meysydd blaenoriaeth

Mae'r ddogfen yn cynnwys pedwar deg saith o bwyntiau gweithredu ac mae'r ymgynghoriad hyd yma yn nodi parodrwydd eang i gyfrannu at eu gweithredu. Nodwyd nifer llai o gamau gweithredu fel rhai sydd â'r effaith bosibl fwyaf neu'r brys mwyaf a chânt eu hamlygu ar gyfer rhoi sylw penodol iddynt.

Pobl a chymunedau

Cynyddu cyfleoedd i gynnwys y cyhoedd er mwyn gwella dealltwriaeth o'r amgylchedd hanesyddol.

Amgylchedd cynaliadwy

Monitro, cofnodi a lleihau effeithiau newid yn yr hinsawdd, yn ddelfrydol gyda chymorth Cydgysylltydd Effeithiau Newid yn yr Hinsawdd Amgylchedd Hanesyddol penodedig.

Cymdeithas ffyniannus

- Annog y broses o gydnabod a gwella ansawdd a natur unigryw'r dreftadaeth adeiledig a'r dirwedd fel sbardun economaidd, yn enwedig o ran twristiaeth.
- Cynnal system gynllunio gadarn sy'n cefnogi cymeriad asedau hanesyddol unigol, trefi hanesyddol a thirweddau drwy annog cynlluniau newydd o ansawdd uchel, gwaith newid cydymdeimladol a gwaith datblygu sensitif.

Cenedl hyderus

Datblygu dealltwriaeth y cyhoedd o hunaniaeth genedlaethol Cymru a brwdfrydedd tuag ati fel y'i mynegwyd gan ei hamgylchedd hanesyddol.